# Canrif o argraffu yn Llandysul

*Crynodeb sydd yma o ymchwil ar gyfer y dathliad yn y Brifwyl yn Aberystwyth ac ar gyfer* Llais Llyfrau *gan Rheinallt Llwyd a Gwilym Huws i hanes can mlynedd o gymwynas fawr a chrefftus a wnaeth teulu'r Lewisiaid yng Ngwasg Gomer i argraffu a chyhoeddi yn y Gymraeg.*

ERBYN nawdegau'r ganrif ddiwethaf roedd Llandysul wedi datblygu'n ganolfan bwysig yn Nyffryn Teifi ac yn enghraifft o bentref a allai fanteisio ar wasg argraffu. Wrth lwc daeth y weledigaeth dros sefydlu gwasg leol i'r person mwyaf cymwys yn yr ardal gyfan, sef John David Lewis, Market Stores.

Prif gymhwyster J. D. Lewis oedd ei ddiddordeb dwfn yn hanes a diwylliant ei fro enedigol a Chymru.

Cymhwyster arall a feddai i sefydlu a chynnal menter yn y byd llyfrau oedd ei brofiad helaeth o fyd busnes. Ei dad, David Lewis, oedd perchennog Market Stores yn Llandysul, a gadawodd John David Lewis yr ysgol pan oedd yn 14 mlwydd oed i'w gynorthwyo. Yn ddiweddarach, daeth y cyfrifoldeb dros redeg y siop — a werthai dipyn o bob peth — yn llwyr arno ef.

Erbyn iddo ddathlu ei benblwydd yn 33 mlwydd oed, ar ddechrau 1892, yr oedd yn amlwg mai'r byd llyfrau oedd yn mynd â'i fryd. Hyn a'i hysgogodd ym mis Mehefin y flwyddyn honno i brynu peiriant argraffu, ar waetha'r ffaith nad oedd ganddo unrhyw brofiad ymarferol o'r maes.

Llai na thri mis ar ôl prynu ei beiriant cyntaf, roedd J. D. Lewis wedi denu William John Jones i Landysul o Lannerch-y-medd i ofalu am y gwaith argraffu. Gan mai ef oedd yr unig argraffydd yn Llandysul yn 1892, buan iawn y daeth pawb i'w adnabod fel 'Jones y Printer' a glynodd yr enw wrtho am weddill ei oes hir.

Erbyn mis Hydref 1892 roedd W. J. Jones yn brysur iawn yn argraffu mân bethau.

Yn 1896 argraffwyd llyfr cyntaf y Wasg. O gofio diddordeb y perchennog mewn hanes lleol nid yw'n syndod mai llyfr ydoedd ar hanes Llandysul gan y Parchedig W. J. Davies.

Yn ystod yr ugain mlynedd wedi symud o Market Stores, mân argraffu oedd prif gynhaliaeth y cwmni. Er hynny fe lwyddodd i argraffu nifer o lyfrau, bron yn ddieithriad ar hanes lleol neu gan awduron ac iddynt gysylltiadau lleol.

Mae'n amlwg erbyn troad y ganrif fod y wasg yn ffynnu a bod J.D. yn awyddus i'w datblygu ymhellach, oherwydd ceir cofnod yn ei ddyddiadur am 1901 ei fod wedi teithio i'r Sioe Amaethyddol yng Nghaerdydd i fwrw golwg ar beiriannau olew. Cyn diwedd y flwyddyn fe welir cofnod mewn llyfr gwaith o'i gynlluniau i ad-drefnu'r wasg gan osod un o'r peiriannau hyn.

* * * *

YN NIWEDD haf 1914, digwyddodd dau beth a chwalodd yr hen drefn. Ym mis Awst fe dorrodd y Rhyfel Byd Cyntaf ac ar 30 Medi bu farw J. D. Lewis yn annisgwyl o sydyn yn dilyn triniaeth lawfeddygol ac yntau'n ddim ond 55 oed.

Disgynnodd y baich o gynnal y wasg ac o wireddu cynlluniau ei sylfaenydd ar y weddw, Mrs Hannah Lewis, gwraig arbennig iawn, ac ar Dafydd, yr hynaf o'r pedwar mab.

Blynyddoedd anodd a gofidus fu blynyddoedd y 'Rhyfel Mawr' i'r teulu gan fod dau o'r meibion yn y lluoedd arfog — Edward yn y fyddin yn Ceylon a Rhys yn y llynges.

Wedi'r rhyfel fe ddychwelodd Rhys i weithio yn y wasg tra aeth Edward i swydd fel Goruchwyliwr y Gyfnewidfa Lafur yn Llandysul. Ac er bod y dauddegau'n gyfnod digon anodd, gwelwyd arwyddion o ehangu a datblygu yng Ngwasg Gomer.

Yn 1926, blwyddyn y Streic Fawr, fe brynwyd offer Monotype. Golygai hyn y gellid ymgymryd â mwy o waith, a'i wneud yn gyflymach.

Os oedd y dauddegau'n flynyddoedd anodd, ni wellodd pethau fawr ddim yn y tridegau. Blynyddoedd o gyni ac o galedi oeddynt. Ac eto dyma'r union adeg pan welwn Wasg Gomer yn pwrcasu mwy a mwy o'r peiriannau diweddaraf posibl.

Parhaodd pwyslais y cwmni ar argraffu glân, graenus a chywir. Nid rhyfedd felly i'r wasg ddod yn enwog am ansawdd ei gwaith, ac i gyhoeddwyr eraill — Gwasg Aberystwyth, a sefydlwyd gan Prosser Rhys yn 1928, a Gwasg Prifysgol Cymru, ac eraill yn ddiweddarach — fynd i Landysul i gynhyrchu eu cyhoeddiadau, yn ogystal â rhai sefydliadau cenedlaethol megis Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

Yr oedd Gwasg Gomer felly yn graddol newid o fod yn argraffwasg a oedd yn gwasanaethu anghenion lleol yn unig i fod yn wasg genedlaethol.

Ond argraffwasg, ac nid gwasg gyhoeddi, oedd Gomer yn bennaf ar ddechrau'r Ail Ryfel Byd yn 1939. Erbyn i'r rhyfel hwnnw ddod i ben roedd profedigaeth enbyd wedi dod i ran teulu'r wasg. Bu farw David Lewis yn annisgwyl ar 26 Awst 1943 ac yntau'n 53 oed. Yr oedd y golled ar ei ôl yn aruthrol gan ei fod yn ŵr arbennig iawn.

Gadawodd Edward Lewis ei swydd yn y Gyfnewidfa Lafur ar ôl marw Dafydd ac ymunodd â busnes y teulu. Prin ddeunaw mis yn ddiweddarach, ar 6 Chwefror 1945, bu farw Prosser Rhys, a dyna ddechrau cyfnod newydd yn hanes Gwasg Gomer.

Ergyd drom i'r byd llyfrau Cymraeg oedd marwolaeth Prosser Rhys. Er 1928 roedd Gwasg Aberystwyth wedi gosod ei stamp arbennig ar y byd cyhoeddi Cymraeg, gan ddenu canran uchel o'r awduron mwyaf blaenllaw.

O'r herwydd yr oedd penderfyniad Gwasg Gomer i brynu Gwasg Aberystwyth yn un craff a dewr. Dros nos bron fe newidiodd y cwmni o fod yn argraffwyr i fod yn un o brif gyhoeddwyr llyfrau Cymraeg.

Roedd y penderfyniad yn un dewr hefyd am iddo gael ei wneud ar drothwy'r cyfnod mwyaf argyfyngus yn hanes cyhoeddi yn y Gymraeg.

Erbyn dechrau'r pumdegau prin hanner cant o deitlau newydd oedd yn ymddangos yn flynyddol a bychan iawn oedd y gwelliant yn ystod gweddill y pumdegau. Er hynny, cwmni J. D. Lewis a'i Feibion, dan wasgnodau Gwasg Aberystwyth a Gwasg Gomer, oedd un o'r gweisg mwyaf cynhyrchiol yn y cyfnod anodd hwn.

I raddau roedd y cwmni'n medru troi at yr awduron hynny a etifeddwyd ganddynt oddi wrth Prosser Rhys, megis T. H. Parry-Williams, E. Morgan Humphreys, a T. Hudson Williams. Ond ni fyddai'r awduron hyn, mwy nag awduron Gwasg Gomer ei hun, wedi aros cyhyd oni bai bod y wasg yn eu trin yn deg ar bob achlysur. Y ffaith eu bod yn cynnig cytundebau i'w hawduron oedd y rheswm pennaf bod perthynas mor rhagorol rhyngddynt a'u hawduron ar hyd y blynyddoedd.

Ac ar waethaf cyflwr enbydus y fasnach lyfrau Cymraeg yn nechrau'r pumdegau, ceir tystiolaeth o ffydd a hyder y teulu yn y dyfodol trwy eu hymdrechion i ddenu awduron ifainc newydd i'w corlan, awduron megis Islwyn Ffowc Elis.

Ar ddechrau'r pumdegau, dyrnaid o gyhoeddwyr, a Gomer yn amlwg iawn yn eu plith, oedd yn llythrennol yn cynnal y fasnach lyfrau Gymraeg heb unrhyw nawdd.

Trwy gydol y pumdegau a'r chwedegau cynnar, gwelwyd gweithgarwch mawr i wella'r sefyllfa, ac Alun R. Edwards yn bennaf symbylydd.

Cychwynnwyd Cymdeithasau Llyfrau Cymraeg, a oedd i arwain yn y pen draw at sefydlu'r Cyngor Llyfrau Cymraeg. Cychwynnwyd hefyd gynlluniau i hyrwyddo llyfrau Cymraeg i blant. Pwyswyd am grant o du'r llywodraeth ganolog i hybu llyfrau Cymraeg, a'r llywodraeth yn ildio o'r diwedd yn 1955-6: £1,000 y flwyddyn yn unig i ddechrau, ond o dipyn i beth fe dyfodd.

Bu dechrau'r chwedegau hefyd yn gyfnod o newidiadau garw yn hanes Gwasg Gomer. Bu farw Rhys Lewis, yr argraffydd manwl, gofalus, ddechrau Mai 1961, ac Edward Lewis, y gŵr busnes craff, yn Ebrill 1965. Yna fe ddisgynnodd y cyfrifoldeb ar y ddau gyfarwyddwr presennol, sef Huw, mab Rhys, a John, mab Edward.

Erbyn diwedd y chwedegau a dechrau'r saithdegau roedd y gyfundrefn nawdd yr ydym ni mor gyfarwydd â hi bellach yn dechrau dwyn ffrwyth. Cynnydd sylweddol iawn yn nifer y teitlau newydd oedd effaith amlycaf y gyfundrefn newydd, a Gwasg Gomer yn ymateb yn fwy nag unrhyw gyhoeddwr arall.

Nid cyfrannu at y twf yn nifer y teitlau fu unig gyfraniad Gomer yn ystod y cyfnod, er mor werthfawr oedd hynny, gan fod y wasg hefyd yn cynnal safonau uchel o ran argraffu.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r wasg wedi rhoi gwasanaeth anrhydeddus i bob agwedd ar fywyd Cymru, trwy gyhoeddi cyfrolau gan lawer o'r prif awduron Cymraeg, yn nofelwyr, beirdd, ac ysgolheigion. Nid anghofiodd y Cymry di-Gymraeg chwaith yn ei rhaglen gyhoeddi.

* * * *

YM MAES llyfrau plant y gwelwyd y cynnydd mwyaf yn y fasnach lyfrau Gymraeg yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a Gomer fu'n gyfrifol am yn agos i chwarter o'r holl deitlau newydd yn y maes hwn. Nid oedd grantiau ar gael i gynhyrchu llyfrau plant cyn 1979.

Mae'r amodau i gyhoeddi llyfrau plant wedi gwella'n ddirfawr ers hynny a 'does dim un cyhoeddwr wedi ymateb yn fwy cadarnhaol na Gomer i'r her bwysig hon, gan ddenu rhai o brif awduron llyfrau plant y cyfnod diweddar. Llyfrau'r wasg sydd wedi ennill Gwobr Tir na n-Og am y llyfrau Cymraeg gorau i blant yn amlach na gweddill y cyhoeddwyr gyda'i gilydd ers sefydlu'r wobr yn 1976.